

CCDG, yn gweithredu fel Gyrfya Cymru – Careers Wales

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1. Nodwch y teitl sy'n cael ei asesu.

Newid Bywydau – Gweledigaeth ar gyfer Gyrfya Cymru 2017-2020

2. A yw hwn yn bolisi, gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd newydd neu'n un sy'n bodoli eisoes?

Mae hwn yn ddull newydd o weithio yn unol â pholisi a chylch gwaith Llywodraeth Cymru gan ystyried y gofyniad i sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr 14-19 hawl i fynediad at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd a phroffesiynol.

<http://law.gov.wales/publicservices/education/careers-advice-training-and-employment/careers-advice/?skip=1&lang=cy#/publicservices/education/careers-advice-training-and-employment/careers-advice/?tab=overview&lang=cy>

Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau'r ddarpariaeth o gyngor gyrfaoedd mewn sefydliadau addysg yng Nghymru gyda Gweinidogion Cymru.

Mae Adran 8 o [Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973](#) (Deddf 1973) yn gosod ymrwymiad ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau i helpu pobl mewn addysg (ar wahân i addysg uwch) yng Nghymru i benderfynu pa gyflogaeth allai fod yn addas iddynt a'u cynorthwyo i gael y gyflogaeth hon. Mae'r mathau o wasanaethau a allai fod yn rhan o hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch y mathau o gyflogaeth sydd ar gael a'r hyfforddiant neu'r addysg allai fod ei angen i gael y gyflogaeth honno.

Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i ddarparu'r gwasanaethau hyn i rai nad ydynt mewn addysg o dan Adran 9 o Ddeddf 1973.

O dan adran 10 o Ddeddf 1973, gall Gweinidogion Cymru drefnu i wasanaethau cyngor gyrfaoedd gael eu darparu gan awdurdodau lleol neu gyrff eraill a gall hefyd gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cyngor gyrfaoedd neu drefnu iddynt gael eu darparu. Wrth wneud y trefniadau hyn, gall Gweinidogion Cymru wneud taliadau i'r darparwyr a chaniatáu i ddarparwyr godi tâl am eu gwasanaethau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gweithredu'r pwerau hyn drwy ddod i drefniant â [Gyrfa Cymru](#), corff sy'n darparu addysg a

chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru drwy ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Mae [Deddf Addysg 1997](#) yn gosod rhwymedigaethau ar gyfrif llywodraethu a phenaethiaid ysgolion yng Nghymru i sicrhau bod disgyblion rhwng 14 a 19 oed yn cael rhaglen o addysg a ddyluniwyd i'w paratoi ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch eu gyrfaoedd a'u helpu i weithredu penderfyniadau o'r fath (adran 43, fel y'i diwygiwyd gan [Reoliadau Addysg \(Estyn Addysg Gyrfaoedd\) \(Cymru\) 2001](#) (OS 2001/1987).

Mae Adrannau 44, 45 a 45B o Ddeddf Addysg 1997 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn darparu mynediad i ganllawiau a deunydd cyfarwyddo ynghylch addysg gyrfaoedd. Rhaid iddynt hefyd weithio gyda Gyrfya Cymru (fel y corff a benodwyd o dan adran 10 o Ddeddf 1973) i ddarparu'r gwasanaeth hwn a, lle y bo'n angenrheidiol, dylai ddarparu gwybodaeth i Gyrfya Cymru am ddisgyblion a myfyrwyr a mynediad iddynt at ddibenion addysg gyrfaoedd.

Mae adran 2 o Ddeddf 1973 yn gosod swyddogaeth ychwanegol ar Weinidogion Cymru gyda chynghor gyrfaoedd. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol at ddiben cynorthwyo pobl i ddewis cyflogaeth sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u capasiti, i hyfforddi ar ei gyfer, i'w gael a chadw neu gynorthwyo pobl i ganfod gweithwyr priodol. Yng nghyd-destun Cymru, gall Gweinidogion Cymru weithredu'r swyddogaethau hyn ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, ond nid ydynt yn cynnwys y swyddogaeth o wneud trefniadau at y diben pennaf o gefnogi'r rheini i gyd (yn wahanol i ran penodol o'r boblogaeth yng Nghymru) nad oes ganddynt waith i ganfod gwaith (paragraff 1, Atodiad 1 [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Trosglwyddo Swyddogaethau\) 1999/672](#)).

Mae'r dull diwygiedig hwn yn cefnogi'r uchod ac yn rhoi'r ffocws ar ddull ataliol drwy gefnogi unigolion i gyflawni'r canlyniadau a restrir ym mhwynt 8 isod. Gall gweithio'n fwy dwys â dysgwyr mewn addysg gorfodol gyfrannu at gefnogi gostyngiad yn nifer y bobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed sy'n gadael y cwrs y maent wedi'i ddewis gyntaf, sy'n arwain at bwysau ychwanegol ar gyllid ôl-16 ac yn cynyddu'r posibilrwydd iddynt beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Mae Newid Bywydau hefyd yn cyfrannu at:

'Symud Cymru Ymlaen 2016-2017' <http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

'Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes': <http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-w.pdf>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

3. Nodwch enw'r uwch berchennog ynghyd ag enwau aelodau'r tîm asesu. Nodwch enw, swydd, y rheswm dros eu cynnwys ac unrhyw sylwadau ychwanegol.

Uwch dîm rheoli Gyrfa Cymru sy'n cynnwys Prif Swyddog Gweithredol, a'r pedwar Cyfarwyddwr a gefnogir gan y Penaethiaid Darparu Gwasanaethau (4), Pennaeth Datblygu Gwasanaethau, Pennaeth AD, Pennaeth TGCh, Pennaeth Cyllid a Chyfleusterau, Pennaeth Perfformiad, Pennaeth Gwella Busnes – yn cynrychioli arweinwyr polisi ar draws y cwmni, pob rhanbarth yng Nghymru, digwyddiadau corfforaethol a llesiant a datblygiad gweithwyr. Erys swyddogaethau deiliaid y swyddi uchod hyd yn oed pan fydd newid teitl swydd.

4. Pa gyfarwyddiaeth neu dîm sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi, gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd yr ydych yn ei asesu?

Mae hwn yn gyfrifoldeb ar draws y cyfarwyddiaethau a adlewyrchir gan gyfraniad yr Uwch Dîm Rheoli a'r grŵp rheoli estynedig a amlinellir uchod. Mae proses llywodraethiant perthnasol yn ei le i sicrhau gweithredu priodol.

5. Beth yw prif nodau ac amcanion neu ddiben y polisi, gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd yr ydych yn ei asesu? Rhowch drosolwg o'r polisi, y gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd ac i bwy neu beth y mae bwriad dod â budd iddynt.

Mae Newid Bywydau'n amlygu'r newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl gan CCDG yn gweithredu fel Gyrfa Cymru.

Mae'r weledigaeth strategol yn nodi amcanion y cwmni ar gyfer y tair blynedd busnes a bydd yn cael ei chyflawni fesul cam fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru ar sail flynyddol. Bydd cynllun busnes blynyddol y sefydliad yn nodi'r cyflawniadau wedi'u targedu a'r cynnig darparu gwasanaethau ar gyfer pob blwyddyn. Bydd y perfformiad yn erbyn hyn yn cael ei fesur drwy adroddiadau chwarterol a blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd yn erbyn yr hyn a nodwyd yn y Cynllun Busnes.

Mae Newid Bywydau'n amlinellu dyheadau Gyrfa Cymru i symud yn sylweddol tuag at ddarparu gwasanaethau cyfunol i ddefnyddwyr ei wasanaethau yng Nghymru a chynnig gwasanaethau wedi'u cyfoethogi i sefydliadau partner i gefnogi pob person ifanc (waeth beth fo'u hamgylchiadau) i ddatblygu eu gyrfa.

6. Pwy sy'n gweithredu, cynnal neu ddarparu'r polisi, gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd?

Mae'r cyfrifoldeb hwn ar draws y cyfarwyddiaethau yn cael ei adlewyrchu gan gyfraniad yr Uwch Dîm Rheoli a'r grŵp rheoli estynedig a amlinellir uchod. Bydd holl weithwyr Gyrfa Cymru'n cyfrannu tuag at weithredu'r strategaeth hon.

Fel rhan o'r broses hunanarfarnu, mae Gyrfa Cymru'n cynnal dadansoddiadau poblogaeth o awdurdod lleol dynodedig sy'n cynnwys data poblogaeth. Gellir dadansoddi'r data hwn i ddangos tueddiadau yn nefnydd y gwasanaethau fesul poblogaeth lle mae nodweddion wedi'u gwarchod yn hysbys, gan gynnwys unigolion sydd am dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd y timau sy'n arwain ar ddarparu gwasanaethau fesul ardal leol yn monitro bod y gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu data'r boblogaeth ac nad yw grwpiau unigol yn cael eu rhwystro rhag cyfranogi.

Lle bo diffyg cydbwysedd mewn galwedigaethau neu sectorau penodol (e.e. rhywedd neu hil neu sgiliau Cymraeg), gall Gyrfa Cymru ddarparu gweithgareddau neu ddigwyddiadau sy'n targedu unigolion yn ôl eu nodweddion gwarchoddedig er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn neu ei atal.

7. Pwy sy'n cael ei effeithio gan y polisi, gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd, neu sut y caiff ei ddarparu?

Mae'r weledigaeth strategol yn gosod ffocws cryfach ar bobl ifanc, gwasanaethau wedi'u cyfoethogi i gefnogi sefydliadau eraill i helpu pobl ifanc i ddatblygu eu gyrfaedd a defnydd mwy hyd yn oed o dechnoleg ddigidol. Bydd gwella sgiliau rheoli gyrfaedd defnyddwyr y gwasanaethau'n helpu tuag at gyflawni'r canlyniadau poblogaeth.

Bydd cyllideb 'craidd' Gyrfa Cymru gan Lywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar:

- Ddefnyddwyr gwasanaethau rhwng 14-18 oed mewn Addysg,
- Defnyddwyr gwasanaethau rhwng 16 a 18 oed a'r di-waith.

Mae'r holl wasanaethau ffôn ac ar y we ar gael i unrhyw ddefnyddwyr ledled Cymru sy'n gallu cael mynediad at y rhyngrwyd, drwy we-gwrs, gweminar, e-bost neu dros y ffôn.

Rhestrir y canlyniadau a ddymunir isod yng nghwestiwn 8.

Oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau

- Cefnogir oedolion sy'n ddi-waith gan drefniant cytundeb ar wahân gyda Llywodraeth Cymru.
- Cefnogir oedolion sy'n wynebu colli eu swyddi neu sydd wedi eu colli yng Nghymru drwy drefniant cytundeb ar wahân gyda Llywodraeth Cymru.

Adolygir y trefniant cytundeb hwn yn flynyddol gan y naill barti a'r llall ac fe'i cyhoeddir mewn llythyr cylch gwaith blynyddol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.

8. Pa ganlyniad yr ydym yn dymuno ei gyflawni, pam ac i bwy? Beth ddylai'r manateision fod i gwsmeriaid, grwpiau neu gymunedau?

Canlyniadau ar gyfer y boblogaeth:

- Gwella effeithlonrwydd marchnadoedd llafur drwy leihau cam-gymharu sgiliau
- Cynyddu cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg a hyfforddiant, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

- Cynyddu i'r eithaf effeithlonrwydd addysg ôl-orfodol drwy gefnogi penderfyniadau yr ystyrir eu bod yn dda ynghylch dewisiadau a llwybrau dysgu gan leihau nifer y cwsmeriaid a gollir a lleihau mynychder y methiant i gwblhau cyrsiau.
- Hyrwyddo parch cydradd rhwng llwybrau academiaidd a galwedigaethol yn benodol gan sicrhau bod pobl ifanc a'u rheini yn ymwybodol o lwybrau prentisiaethau a'u bod yn cael eu cefnogi i gael mynediad atynt fel sy'n briodol
- Helpu asiantaethau eraill i dargedu eu gwasanaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol
- Yn unol â'r uchelgais a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru, cefnogi ysgolion i ddarparu profiadau a chyfleoedd i bobl ifanc sy'n helpu i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith.
- Gwella gweithio mewn partneriaeth gref a mwy effeithiol gyda phartneriaid allweddol fel ysgolion a chyflogwyr a datblygu addysg effeithiol - cysylltiadau busnes ledled Cymru.

Mae targedu defnyddwyr gwasanaethau sy'n parhau mewn addysg yn rhoi ffocws ar atal.

9. Pa adolygiadau neu ymchwil presennol neu flaenorol a gynhaliwyd ar y polisi, gwasanaeth, swyddogaeth/gweithgaredd?

Edrychodd arolwg annibynnol gan Pricewaterhouse Coopers - 'Strategic Review of Careers Wales' (2016) - ar 3 opsiwn posibl ar gyfer darparu gwasanaethau ac roedd yn cynnwys dadansoddiad o dystiolaeth ryngwladol.

- Cynhaliwyd cyfarfodydd briffio a chyfarfodydd eraill gyda rhanddeiliaid mewn dau leoliad ledled Cymru. Gwahoddwyd unigolion yn cynrychioli addysg, dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau partner eraill i gymryd rhan.
- Cynhaliwyd arolwg o ddefnyddwyr y gwasanaethau (pobl ifanc mewn addysg) gan sefydliad ymchwil annibynnol. Roedd y grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy o bob cwr o Gymru, yn cynrychioli grwpiau daearyddol a economaidd-gymdeithasol gwahanol a gwahanol allu o ran y Gymraeg. Y canfyddiadau oedd bod y rheini yr ymgynghorwyd â hwy yn cefnogi'r cynnig gwasanaeth 'cyfunol' sy'n cyfuno defnydd o'r we a gwasanaethau digidol gyda chynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb.
- Dosbarthwyd arolwg staff i ymgynghori â'r gweithwyr i weld pa grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n cael y budd mwyaf o gymorth Gyrfa Cymru.
- Dosbarthwyd arolwg staff i ymgynghori â'r gweithwyr ynghylch y math o wasanaethau y gellid eu darparu'n ddigidol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.
- Ymgynghorwyd â rhieni defnyddwyr y gwasanaethau ynghylch pa ddulliau yr hoffent eu defnyddio i gael mynediad at gymorth gyrfaoedd i'w plant

10. Amlinellwch unrhyw ymchwil, adborth neu ymgynghoriad a ddefnyddiwyd i bennu a oes gan y polisi, gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd effeithiau cydraddoldeb.

Gweler uchod

11. Ar sail yr ymchwil a'r ymgynghoriad y gwnaethoch eu cynnal, a oes arwydd bod unrhyw bolisi, gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd yn creu problemau neu anawsterau penodol ar gyfer unrhyw grwpiau neu gwsmeriaid neu gymunedau?

Eithrio digidol:

Ni fydd gan bob defnyddwyr ledled Cymru fynediad at gymorth i gael mynediad at wasanaethau digidol. Dangosodd Arolwg ONS 2014-15 fod 81% o'r rheini a arolygwyd yn defnyddio'r rhyngwrdd yn bersonol yn y cartref, y gwaith neu rywle arall. Mae Gyrfa Cymru'n cynnig gwasanaeth cymorth Rhadffôn a gwasanaeth galw yn ôl dros y ffôn. Bydd Gyrfa Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau i feithrin sgiliau neu gael mynediad at y defnydd o wasanaethau ar y we.

Ieithoedd eraill heb gynnwys Cymraeg na Saesneg:

Cytundebau Gyrfa Cymru gyda darparwr allanol i gefnogi'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, nad dynt yn siarad Saesneg na Chymraeg.

Unigolion mewn cymunedau gwledig/ardaloedd o amddifadedd:

Mae Gyrfa Cymru'n ymdrechu i drefnu gweithgaredd wyneb yn wyneb mewn lleoliadau a ddefnyddir naill ai gan bartneriaid sy'n gweithio yn y gymuned neu sefydliadau partner lle bydd unigolion yn mynychu am resymau eraill (e.e. Canolfan Byd Gwaith). Bydd Gyrfa Cymru'n trefnu cysylltiadau ffôn, fideo neu'r we ar gyfer y rhai sy'n methu cael mynediad at wasanaethau mewn lleoliadau dynodedig.

12. A oes unrhyw dystiolaeth o gyfranogiad / defnydd gwahanol gan bobl â nodweddion gwarchoddedig?

Ewch i'r tabl nodweddion gwarchoddedig.

Nid yw'r data cyfranogiad ar gyfer pobl â'r nodweddion gwarchoddedig a ganlyn yn cael eu casglu fel rheol a'u storio gan Gyrfa Cymru: Cyfeiriadedd rhywiol, Crefydd, Cred neu ddiffyg cred, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Priodas a Phartneriaeth Sifil. O fewn y nodwedd o Hil, nid yw Gyrfa Cymru'n casglu a storio gwybodaeth fel rheol ynghylch Tras Cenedlaethol, Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid, Sipsiwn a Theithwyr, Mudwyr. O ran nodweddion Anabledd, nid yw Gyrfa Cymru'n casglu a storio gwybodaeth fel rheol am iechyd meddwl a llesiant meddyliol defnyddwyr y gwasanaethau.

Bydd unrhyw ffactorau, rhwystrau neu heriau a allai effeithio ar y gwaith o reoli neu gynllunio gyrfa unigolyn i'r dyfodol, gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig perthnasol, yn cael eu trafod fel rhan o'u rhyngweithiadau cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd gyda chaniatâd defnyddiwr y gwasanaeth.

Tabl Nodweddion Gwarchodedig

Nodwedd warchodedig	Gwybodaeth neu ffeithiau cefnogol perthnasol	A yw'n debygol y bydd effaith wahaniaethol? Cadarnhaol neu negyddol?	
		Ydi Os bydd, rhowch gyfiawnhad dros eich rhesymau a nodwch y problemau.	Nac ydi Os na fydd, rhowch gyfiawnhad dros eich rhesymau.
Oedran:	<p>Mae data cydraddoldeb 2015-2016 sy'n adlewyrchu defnyddwyr gwasanaethau Gyrfa Cymru fel a ganlyn:</p> <p>Mae 52.1% o'r rheini yng ngrŵp cleient Gyrfa Cymru o oedran ysgol gorfodol (h.y. hyd at 16)</p> <p>Mae 14.1% o'r cleientiaid wedi gadael addysg orfodol (16 a 17 oed)</p> <p>Mae 19.2% yn 18-24 oed</p> <p>Mae 14.6% dros 25 oed</p>		<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau ar y we neu'r ffôn.</p> <p>Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio mwy ar y rheini o oed ysgol gorfodol ac felly mae'r canran hwn yn debygol o godi yn ystod gweithrediad Newid Bywydau.</p> <p>Mae gweithgaredd gyda'r rhai dros 18 oed yn anhebygol o newid yn sylweddol tra bo Gyrfa Cymru yn parhau i gynnig gwasanaethau i oedolion drwy'r cytundeb presennol â Llywodraeth Cymru.</p>
Anabledd: <ul style="list-style-type: none"> • Nam ar y golwg neu'r clyw • Anabledd corfforol neu ddysgu • Problem iechyd meddwl • Namau eraill 	<p>Mae canran Cymru gyfan o 31.6% o'r cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru'n datgan eu bod yn 'anabl'.</p> <p>O dan Adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae Gyrfa Cymru'n parhau i ddwyn ynghyd y Cynlluniau Dysgu a</p>		<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth.</p> <p>Mae ystadegau Llywodraeth Cymru'n dangos bod 20% o oedolion o oed gweithio yn byw gydag anabledd, a bod gan 14.8% anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. http://gov.wales/statistics-and-</p>

	<p>Sgiliau ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion addysg arbennig sy'n dymuno dilyn addysg ôl-16 fel y nodir yn y canllawiau polisi.</p>		<p>research/prevalence-disability/?lang=cy</p> <p>Wrth ddatblygu mwy o wasanaethau digidol, rydym yn ystyried hygyrchedd ein cynnwys ar y we a darpariaeth ein gwasanaethau ar-lein a dros y ffôn ar gyfer y rheini gydag amhariadau gweledol neu glywedol.</p> <p>Darperir cyfarwyddyd i weithwyr Gyrfa Cymru am gefnogi defnyddwyr gwasanaethau sy'n cyflwyno eu hunain gydag anabledau corfforol neu ddysgu penodol yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl.</p> <p>Mae'r lleoliadau a ddefnyddir gan weithwyr Gyrfa Cymru ar gyfer ei wasanaethau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac fe'u hamlinellir yn ein Strategaeth Ystadau.</p>
<p>Rhywedd:</p>	<p>Mae data'r cyfrifiad yn nodi bod 49% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Wryw a 51% yn Fenyw.</p> <p>Mae proffil rhywedd Gyrfa Cymru o ddefnyddwyr ei wasanaethau'n dangos cyfartaledd o 54% yn wryw.</p>		<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau ar y we neu'r ffôn.</p> <p>Fel rhan o weithredu Newid Bywydau, bydd Gyrfa Cymru'n nodi achlysuron lle mae dynion/menywod wedi'u tangynrychioli mewn meysydd neu sectorau galwedigaethol penodol ac yn trefnu digwyddiadau/gweithgareddau i helpu i wrthdroi unrhyw farn neu ragfarn ystrydebol.</p>

<p>Hunaniaeth o ran rhywedd:</p>			<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau ar y we neu'r ffôn.</p> <p>Mae Gyrfa Cymru'n darparu defnyddwyr ei wasanaethau â'r cyfle i beidio â chategoreiddio eu rhywedd fel gwryw neu fenyw ar ffurflenni neu mewn arolygon a gynhyrchir. e.e. gwnaeth 10% o bobl ifanc a lenwodd yr arolwg blwyddyn 10 yn 2016 nodi nad oeddent am nodi eu hunaniaeth o ran rhywedd.</p> <p>Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i Youth Cymru Trans*form i amlygu i'w weithwyr yr heriau y mae unigolion sy'n nodi eu bod yn drawsryweddol yn eu hwynebu.</p> <p>Mae Gyrfa Cymru'n darparu gweithwyr gyda deunyddiau i gefnogi dealltwriaeth well o anghenion unigolion sy'n nodi eu bod yn drawsryweddol.</p>
<p>Priodas a Phartneriaeth Sifil</p>			<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau ac mae hyn yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau dros y we neu'r ffôn.</p>

Beichiogrwydd a Mamolaeth			<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau ar y we neu'r ffôn.</p>
Hil: <ul style="list-style-type: none"> • Lleafrif ethnig • Tras cenedlaethol • Ceisiwr Lloches • Ffoadur • Sipsiwn a Theithwyr • Mudwyr • Eraill 	<p>Arolwg y Llafurlu Lleol/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: yn adrodd bod y ganran o bobl sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir heb fod yn wyn yn 4.4%.</p>		<p>Mae data Gyrfa Cymru am 2015-16 yn dangos, bod y mwyafrif o ddefnyddwyr y gwasanaethau'n nodi eu bod yn Gymru Prydeinig neu Wyddelig. Mae 7.38% o ddefnyddwyr y gwasanaethau ledled Cymru'n nodi grwpiau ethnig eraill.</p> <p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau ar y we neu'r ffôn.</p>
Crefydd, cred neu ddiffyg cred:	<p>Nid yw Gyrfa Cymru'n casglu nac yn cadw gwybodaeth ynghylch crefydd, cred neu ddiffyg cred unigolion.</p>		<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau ac mae hyn yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth.</p> <p>Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau dros y we neu'r ffôn.</p> <p>Darperir cyfleoedd dysgu a datblygu i weithwyr Gyrfa Cymru yn ogystal â mynediad i adnoddau i amlygu'r problemau y gallai unigolion y gallai eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred effeithio ar eu cynlluniau gyrfa eu hwynebu.</p>

<p>Cyfeiriadedd Rhywiol:</p>	<p>Nid yw Gyrfa Cymru'n casglu nag yn cadw gwybodaeth ynghylch cyfeiriadedd rhywiol.</p>		<p>Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn ystyried anghenion a dyheadau cleientiaid fel rhan o'u sgiliau rheoli gyrfa a'u cymwyseddau ac mae hyn yn cynnwys unrhyw rwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau dros y we neu'r ffôn.</p> <p>Darperir cyfleoedd dysgu a datblygu i weithwyr Gyrfa Cymru yn ogystal â mynediad i adnoddau i amlygu'r problemau y gallai unigolion sy'n lesbiaid, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n drawsryweddol eu hwynebu.</p>
<p>Y Gymraeg</p>	<p>Nododd 19% o boblogaeth Cymru yng Nghyfrifiad 2011 eu bod yn siarad Cymraeg.</p>		<p>Yn unol a'n Cynllun Iaith Gymraeg ac i baratoi i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, mae Gyrfa Cymru'n darparu gwasanaethau i'w ddefnyddwyr yn eu dewis iaith.</p> <p>O ran safonau darparu gwasanaethau, mae'n ofynnol bod Gyrfa Cymru fel is-gorff ym mherchnogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru yn bodloni'r un safonau â Gweinidogion Cymru.</p> <p>Nododd 10% o'r bobl ifanc ym mlwyddyn 10 yn arolwg 2016 eu bod yn dymuno derbyn y cynnig gwasanaeth yn Gymraeg.</p>
<p>Grwpiau eraill a allai wynebu anfantais.</p>	<p>Mynediad at y rhyngrwyd a gwasanaethau digidol.</p> <p>Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i gael presenoldeb mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru, gan gynnwys ei</p>		<p>Mae penderfyniad Gyrfa Cymru i ddarparu cynnig mwy digidol wedi'i anelu at gynyddu'r nifer sy'n gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Mae'r cynnig digidol hwn yn cynnwys gwasanaethau dros y ffôn a gwasanaethau ar y we (sgyrsiau, e-byst, fideos a gweminarau)</p>

	<p>ganolfannau ei hunan, mewn lleoliadau ar y cyd â phartneriaid ac mewn lleoliadau allgymorth.</p> <p>Bydd timau rheng flaen Gyrfu Cymru yn cyfeirio defnyddwyr ei wasanaethau i gefnogaeth ar gyfer meithrin sgiliau digidol lle bo angen hynny.</p>		<p>Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 fod 85% o boblogaeth Cymru yn defnyddio'r rhyngwrwd gartref, yn y gwaith neu mewn mannau eraill.</p> <p>http://gov.wales/docs/statistics/2017/170831-national-survey-2016-17-internet-access-online-public-services-cy.pdf</p> <p>.</p>
--	--	--	---